I S - D D E D D F W R I A E T H
C Y M R U

# LlC23-08

# DEDDF Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL (CYMRU) 2006

## CYFARWYDDYDAU ADRODD GAN FYRDDAU IECHYD LLEOL AC YMDDIRIEDOLAETHAU'R GIG AM GYFLWYNO MEDDYGINIAETHAU NEWYDD I'R GWASANAETH IECHYD GWLADOL YNG NGHYMRU 2023

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *** |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill 2023* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 12(3), 19(1) a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, yn rhoi'r Cyfarwyddydau a ganlyn.

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Cyfarwyddydau hyn yw Cyfarwyddydau Adrodd gan Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG am Gyflwyno Meddyginiaethau Newydd i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru 2023.

(2) Daw'r Cyfarwyddydau hyn i rym ar 1 Ebrill 2023 ac maent yn gymwys i bob Bwrdd Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru.

(3) Yn y Cyfarwyddydau hyn—

ystyr "GSFCG" ("*AWMSG*") yw Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru Gyfan;

ystyr "System Adrodd am Gyffuriau Cost Uchel" ("*High-Cost Drugs Reporting System*") yw'r system

sydd wedi ei chymeradwyo gan Weinidogion Cymru ar gyfer cofnodi gwybodaeth am ddefnyddio cyffuriau cost uchel.

### Gweithredu'r System Adrodd am Gyffuriau Cost Uchel


**2.** Oni chyfarwyddir hwy fel arall gan Weinidogion Cymru, rhaid i Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG ddefnyddio'r System Adrodd am Gyffuriau Cost Uchel bob tro y caiff meddyginiaeth sydd wedi ei chynnwys yn y rhestr o feddyginiaethau a gymeradwyir gan GSFCG(**1**)—

(a) ei rhagnodi ar gyfer unrhyw glaf ar ffurflen bresgripsiwn at ddiben triniaeth GIG claf; neu

(b) ei chyflenwi neu ei rhoi i unrhyw glaf at ddiben triniaeth GIG y claf.

Llofnodwyd ar ran y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 21 Ebrill 2023



*Andrew Evans*

Y Prif Swyddog Fferyllol

Llywodraeth Cymru

(**1**) Mae'r rhestr o feddyginiaethau a gymeradwyir ar gael yn: https://cttcg.gig.cymru/blueteq